

DISGRIFIAD SWYDD

TEITL SWYDD: Goruchwyliwr amser cinio

CYFLOG/GRADD: Gradd 2 SCP 3

Yn gyfrifol am: Rheolwr Cyllid

ORIAU: Amser tymor yn unig 38 wythnos y flwyddyn
17.5 awr yr wythnos (Llun-Gwener) 11.00 am-2.30pm

PWRPAS SWYDD

Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd gyflawni gweithdrefnau'r ysgol hyd eithaf ei allu a bod ag ymrwymiad i wella'r rôl yn barhaus. Mae disgwyl iddo weithio fel rhan o dîm a chefnogi eraill.

Bod yn gyfrifol am ddiogelwch, lles ac ymddygiad da myfyrwyr yn ystod yr egwyl ginio.

Prif gyfrifoldebau

- I oruchwylio myfyrwyr yn yr ystafell fwyta (gan gynnwys coridorau a thoiledau cyfagos), maes chwarae a/neu ardaloedd eraill yn unol â chyfarwyddyd uwch staff.
- Cynnal trefn dda a disgyblaeth yn yr ardal a neilltuwyd.
- Cyflawni dyletswyddau ategol fel bod y byrddau yn lân a bod gollyngiadau yn cael eu clirio.
- Cyflawni dyletswyddau a thasgau eraill fel y cyfarwyddir

Cyfrifoldebau cyffredinol

- Diogelu a hyrwyddo lles plant
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill a all fod yn rhesymol ofynnol sy'n gymesur â lefel y swydd.
- Sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cael eu cynnal yn unol â deddfwriaeth Cyfle Cyfartal.
- Ymgymryd â'r cyfrifoldebau lechyd a Diogelwch Personol yn HASAWA 1974.

SWYDD DISGRIFIAD/MANYLEB PERSON

Diogelu:	Mae'r Awdurdod yn unol â'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion ac mae'n disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn. Mae'r Awdurdod yn disgwyl i'r holl staff ymgymryd â hyfforddiant diogelu gorfodol a chadw i fyny ag ef er mwyn amddiffyn plant ac oedolion.
-----------------	--

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS):	ae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y swydd gael lefel datgeliad DBS fel y nodir isod:		
	Cais Datgelu DBS safonol	Cais DBS Datgelu Gwell	Dim Cais DBS Datgelu
		x	

12 February 2025